# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 12/09/2017 Ysgol Nefyn am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (CAD) | Gruffydd Williams | Guto Williams | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Sian Hughes | Rhys Tudur | Alan Griffiths | Andrew Owen | Bethan Williams |
| Gwynfor Jones | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Cartin Roberts.
   Croesawu aelod newydd; Gwynfor Jones EDERN i'r cyfarfod.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio
   Sian Hughes – Ceisiadau Cynllunio gan ei bod yn Aelod Lleol

3. **Cofnodion 11/07/2017 (ar cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Seddi Gwag**
   Croesawu Gwynfor Jones I'r sedd wag terfynol yn Edern.
   Clerc wedi cysylltu hefo'r adran etholiadau Cyngor Gwynedd ac yn cadarnhau caiff ail hysbysebu'r seddi gwag yn Nefyn a Morfa Nefyn.
   RHJ i ddarparu templed.

5. **Traethau Nefyn a Morfa Nefyn**
   Eisiau gyrru diolch (trw yngor Gwynedd) i Gareth a ??? am eu gwaith arbenig dros cyfnod yr haf.
   Wedi gwahodd Barry Davies a Bryn Prichard-Jones i gyfarfod mis Tachwedd.Efalla'i gall Gareth a ??? fynychu'r cyfarfod hefyd.

6. **Llyfrgell**
   Dim diweddariad ar y gwaith o adnewyddu.

7. **AHNE**
   Diweddariad gan Gruffydd Williams –
   Gruff wedi holi Bleddyn Jones Swyddog AHNE ynglŷn â'r broses o enwebu aelodau, nodwyd nad oes newid i'r broses.
   Mae 5 Aelod Cyngor Gwynedd wedi eu henwebu i gynrychioli ar Bwyllgor yr AHNE ond 1 oedd wedi dod i'r cyfarfod diweddaraf.
   Mae Gruffydd Williams wedi ei gadarnhau fel aelod o'r Pwyllgor AHNE yn cynrychioli Cyngor Tref Nefyn.
   Mae'r AHNE yn edrych ail wampio sut maent yn rhedeg yr AHNE a byddant yn mynd allan at ymgynghorwr i wneud hyn.

8. **Llwybrau**
   Diweddariad gan Gruffydd Williams
   Mae cyfnod grantiau llwybrau wedi ei estyn. Disgwyl am gadarnhad bod y grant yn cael ei drosglwyddo.
   Cors Geirch – Rhaid gwneud yn siŵr bod llwybr yn cael ei wneud i fynd trwy'r tir - Dewi Owen Cyngor Gwynedd

Diweddariad gan Sian Hughes
Trem y Garn – Ysgol Morfa Nefyn – Rhaid I'r datblygwyr ddarparu llwybr addas i'r ysgol fel y nodwyd yn ddyfarniad cynllunio. Maent wedi cynnig rhoi gris ond mae'r pwyllgor yn cytuno nad yw hyn yn dderbyniol i famau gyda phram ac anabledd.
Rhaid mynd yn ôl at adran gorfodaeth Cyngor Gwynedd (Gwyn Evans) I wneud yn siŵr eu bod yn darparu llwybr yn unol â'r cytundeb.

**9. Toiledau**
Nodwyd bydd y cyllid gan Gyngor Gwynedd 2017-18 yr un peth a 2016-17.
Angen edrych i mewn i oleuadau'r toiledau, nodwyd bod golau ymlaen yn y toiledau pan maent wedi eu cloi. Efallai bod angen uwchraddio'r systemau i rai gydag amserydd.

**10. Diweddariad Awdit 2016-17**
Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones –
Wedi ymateb i'r holl gwestiynau mae'r BDO wedi eu gofyn ac yn disgwyl ymateb.

**11. Y Ddól**
Diweddariad gan Gruffydd Williams –
Gwrthwynebu - ar sail gôr ddatblygiad a'r ffaith nad yw'r datblygwr yn cadw at amod 16 cais C15/1372/42/LL.
Mae'r rhandiroedd sydd wedi eu darparu yn anaddas ac yn amhosib tyfu un rhywbeth gan fod y tir mor wlyb hyd yn oed dros yr haf.
Buasai'r Cyngor Tref yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth am faint sydd wedi gwrthwynebu, yn dilyn camgymeriad gan y datblygwr yn nod 3 gwrthwynebiad yn unig yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Maent bellach wedi eu ffeindio nifer mwy o wrthwynebiadau.

**12. Meinciau**
Mae yna safleoedd ar gael i feinciau newydd ar lwybr yr arfordir.
Sut mae hyn yn effeithio ceisiadau hanesyddol am feinciau sydd wedi cael ei gwrthod – o gof mae'r ceisiadau wedi eu cwblhau drwy ganiatáu meinciau mewn safleoedd eraill (Mynwentydd, Brêc)
Mae angen gwneud yn siŵr bod y meinciau yn rhai o safon.
Pwy sydd yn gyfrifol am y meinciau unwaith maent wedi ei gosod?
RHJ i edrych i fewn i hyn.

**13. Tir Rhos y Rhimmon, Edern**
Yn Dilyn cyfarfod Pwyllgor Cae Chware 11/09/2017 cytunwyd na fydd y pwyllgor yn gyfrifol am yr holl dir sydd wedi ei amlygu yn y cynllun.
I bwrpas cofrestru'r tir; Mae angen eu cofrestru i gyd gan ei fod yn berchnogaeth Cyngor Tref Nefyn.
O.N. Bydd angen creu cofrestr gyflawn o'r holl diroedd sydd mewn perchnogaeth Cyngor Tref Nefyn.

**14. Grŵp Cynefin (Tai Eryri)**
Angen mwy o fanylion am yr aelodaeth; gyrru llythyr i Grŵp cynefin i gael disgrifiad

**15. Safle ail Gylchu, Ffordd Dewi Sant**
Diweddariad Gan Sharon Williams –
Wedi bod mewn cysylltiad hefo Cyngor Gwynedd yn ystod cyfnod yr haf ynglŷn ar llanast a budreddi. Mae llythyr wedi ei yrru i gynnig tynnu'r biniau ail gylchu yn gyfan gwbl; nod oes ymateb wedi dod.
Y Clerc i yrru llythyr arall.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

16. **Cefnogol**
    Cytuno i bwrcasu shredder i ddefnydd y Clerc.
    Nodi bod dal problemau cael mynediad i'r wefan gefnogol. Mae Simon yn edrych i mewn i hyn.
    Y Clerc i ddilyn hyn i fynnu.

17. **Rheolau'r Cyngor**
    Cytunwyd i drefnu Pwyllgor Rheolau. Aelodau wedi eu henwebu; Bethan Williams, Andrew Owen, Rhys Tudur, Arfon Hughes a Rhian Hughes-Jones.
    Bydd y pwyllgor yn edrych i mewn i'r rheoliadau i gyd.

18. **Clirio dogfennau hanesyddol**
    RHJ i drefnu dyddiad ac amser i phawb ddod i Siop Siarad i fynd trwy dogfenau. Bydd Dydd Sadwrn yn well i phawb.
    Mae Menter Llyn yn talu rhent Siop Siarad am y flwyddyn nesaf.

**<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**

**C17/0534/42/LL** – Adeiladu Trac – Fron Fawr, Y Fron, Nefyn.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C17/0589/42/LL** – Addasiad I Amgueddfa – Amgueddfa Forwrol Nefyn, Stryd y Llan, Nefyn.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C17/0656/42/LL** - Adeiladu 5 o Dai un llawr gydag un i fod yn dy fforddiadwy – Maes y Garn, Stryd Fawr, Nefyn.
**Gwrthwynebu - ar sail gôr ddatblygiad a'r ffaith nad yw'r datblygwr yn cadw at amod 16 cais C15/1372/42/LL.**
**Mae'r rhandiroedd sydd wedi eu darparu yn anaddas ac yn amhosib tyfu un rhywbeth gan fod y tir mor wlyb hyd yn oed dros yr haf.**
**Buasai'r Cyngor Tref yn ddiolchgar o dderbyn gwybodaeth am faint sydd wedi gwrthwynebu, yn dilyn camgymeriad gan y datblygwr yn nod 3 gwrthwynebiad yn unig yn dilyn ymgynghoriad gyda'r cyhoedd. Maent bellach wedi eu ffeindio nifer mwy o wrthwynebiadau.**

**C17/0621/42/LL** – Newid defnydd rhan o gae i ffurfio estyniad i gwrtil tŷ – Glan Fadryn, Cefn Morfa, Morfa Nefyn, Nefyn.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C17/0673/42/LL** – Newid defnydd storfa i siop barbwr – Siop Pit Stop, Lon Terfyn, Morfa Nefyn, Nefyn.
**Dim Gwrthwynebiad**

**C17/0805/42/LL** – Dymchwel sied bresennol ac adeiladu 3 uned gwyliau deulawr – Tynpwll Cottage, Lon-ty'n-pwll.
**Gwrthwynebu - ar sail mynedfa i'r safle a diogelwch ffyrdd.**
**Mae'r ffordd yma yn boblogaidd iawn gyda cerddwyr a phlant ac yn mynedfa i llwybr yr arfordir, ond yn gul ofnadwy sydd yn achosi pryder mawr os bydd mwy o ddefnydd ar Ffordd Tynpwll.**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**Ceisiadau am gyfraniad**

Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian I gefnogi Gwasanaethau Lleol

**Gohebiaeth**

1. Un Llais Cymru – Bwletin Gorffennaf ac Awst 2017 & Cofnodion cyfarfod mis Mehefn.
2. SLCC - Bwletin Gorffennaf ac Awst 2017
3. Holiadaur Dewis – eisiau ei gwblhau a'i ddychwelyd
4. Llythyr Diolch gan BOBATH 25 am gyfraniad.
5. E J Hughes – plant Hire - Cynnig gwasanaeth peirianyddol yn cynnwys yswiriant priodol
   **Angen eu gofnodi ar y Gofrestr o Ymgynhorwyr a gyrru llythyr cydnabod.**
6. Iwan Davies – Cynnig Gwasanaeth - am ddechrau busnes glanhau; biniau, meysydd parcio, palmentydd, ffenestri ac ati.
   **Angen eu gofnodi ar y Gofrestr o Ymgynhorwyr a gyrru llythyr cydnabod.**
7. Unllais Cymru – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2:15 y.h. Maes Sioe Frenhinol Cymru.
8. Un Llais Cymru – Cynllun Grant Cymraeg 2050.
9. Un Llais Cymru – Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data.
10. Cronfa Loteri Fawr – Gallwch chi helpu ni benderfynu sut mae arian Loteri'n cael ei wario?
11. CDLl – Wedi ei fabwysiadu ac ar gael i'r cyhoedd.
12. Partneriaeth Llywodraeth Lleol – Clystyru
13. SLCC – Oes unrhyw un lleol yn deilwng o unrhyw un o'r ddwy wobr; Professional Innovation Award neu New Clerk of the year
14. Clerks & Council Direct – Angen Taliad
15. Hysbysiad o Gais Deddf Trwyddedu 2013 – Constitutional Club, Ffordd Dewi Sant, Nefyn.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 12/09/2017 Ysgol Nefyn am 7yh

**Taliadau wedi cael ei cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc** a **PAYE** Gorffennaf | **£726.93** |
| **Cyflog y clerc** a **PAYE** Awst | **£726.93** |
| Ol-Daliad i **Glesni G Jones** a | **£200.00** |
| **PAYE** Ebrill – Mehefin | **£63.76** |
| **PAYE** Gorffennaf | **£13.76** |
| **Ashley Hughes** – Nwyddau | **£42.46** |
| **Clif Hughes** – Gwaith Cynnal £656.00 + £282.92 | **£938.92** |
| **Tyddyn Sachau** –<br>Blodau £150.00 + £48.25 | **£198.25** |
| **Sharon Williams** – Blodau<br>Glesni G Jones | **£24.10** |
| **Robyns Owen** – Tir Rhos y Rhimmon | **£277.00** |
| **Rhian Hughes-Jones** – Y Clerc<br>Postio Awdit a Llyfr Stamp - £9.12<br>Meddalwedd gwrth firws - £24.99<br>Office 365 i'r gliniadur - £59.99 | **£94.10** |
| **J G Jones** – Contractwr<br>10/07/2017 - £60.00 **+** £60.00 + £130.00 + £350.00<br>28/07/2017 - £350.00<br>31/08/2017 - £400.00 | **£1350.00** |
| **Clerks & Councils Direct** – tanysgrifiad | **£100.00** |
| **BACSTAL** – Gwasanaeth taliadau | **£99.60** |
| **Mr David M Parry** – Gwaith Cynnal | **£999.00** |
| **G D Roberts & Son - Contractwr** | **£500.00** |
| Wedi talu **Arfon Hughes £545.00** am liniadur y clerc a oedd eisoes wedi ei benderfynu yn cyfarfod 11/07/2017 | **£545.00** |

**Ôl Nod**

**Pensiwn y Clerc –** Arfon Hughes am edrych i mewn i hyn.

**Materion yw rhoi ar agenda Mis Hydref:** Calan Gaeaf

Nadolig

Defibrillator Edern